# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 1af o Ebrill, 2021 drwy 'Zoom', am 8:00 y.h.**
**Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfod cyffredin yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.**

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Aled Davies (Cadeirydd), Aled Evans, Thomas Prys Jones, Margaret Griffith, Tegid Jones, Angela Williams, Sian Angharad Parry, William Ifor Hughes, Gareth O. Davies, Ceri Jones a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Anwen Jones, Naomi Jones, Sion Aled Jones, Trefor Wyn Jones a Darren Morley.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 4ydd o Fawrth 2021, (roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 01.04.2021).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Mawrth 2021 –
(roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi cyn y cyfarfod ar 01.04.2021).

4. **Datgan buddiant personol –** (y Clerc wedi anfon copi electroneg at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod).
**Cynghorydd Margaret Griffith**, datgan buddiant personol o dan rhif 6c, sef cais cynllunio Gwag y Noe, Chwilog oherwydd ei bod yn adnabod yr ymgeiswyr yn dda.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

a) Cau Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Cefn Rhosgyll hyd at Terfyn, Llangybi ar yr 17eg o Fawrth, 2021 – gosod 'ceblau' uwchben gan BT Openreach ar hyd y ffordd. **Derbyn**

b) Cau Ffordd Dosbarth III, Pencaenewydd ger Coed Trallwyn hyd at groesffordd Drws y Coed ar y 18fed o Fawrth,2021 – gwaith atgyweirio argyfwng ar y bibell ddwr sydd wedi malu. **Derbyn**

c) Cau Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Coed Cae Du, Ynys, Cricieth ar yr 22ain o Fawrth, 2021- gosod 'ceblau' uwchben gan BT Openreach. **Derbyn**

ch) Rhaglen waith cynnal tiroedd – torri gwair o fewn man 30/40 milltir yr awr, Chwilog, Rhoslan, Llanystumdwy, Pencaenewydd a Llangybi-mis Mai, Gorffennaf a Medi. D**erbyn**

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

**a) Cais rhif:C21/0188/41/LL – Llwyn Helyg, Llangybi,** Pwllheli, LL53 6TB – newid defnydd tir pori er mwyn creu 'arena' marchogaeth. **Roedd pryder nad oedd digon o wybodaeth hefo'r cais, ac os oedd bwriad i gynnal busnes masnachol yno, fod y lon yn gul.**

**b) Cais rhif:C21/0225/41/DT - Tyddyn Heilyn, Chwilog**, Pwllheli, LL53 6SW- estyniad. **Dim gwrthwynebiad.**

**c) Cais rhif:C21/0224/41/DT - Gwag y Noe, Chwilog,** Pwllheli, LL53 6SW – estyniad deulawr cefn. **Cefnogi**.

7. **Crynodeb o brif ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref** – trafod y prif bwyntiau ar y noson, sef:-
**Grym Cymhwysiad Cyffredinol** ('general power of competence') – sef y bwriad o greu llywodraeth leol fwy effeithiol, galluog a blaengar, i weithredu er lles gorau y gymuned a sicrhau arbedion a chynnig gwerth am arian. Yr amodau i allu cyhoeddi fod y 'gyngor cymuned yn gymwys' yw:

- Cafodd o leiaf ddau draean o gyfanswm aelodau'r cyngor eu hethol, boed mewn etholiad arferol neu mewn is-etholiad.
- Fod gan glerc y cyngor pa gymhwyster bynnag neu ddisgrifiad o gymhwyster ag a fynnir gan Weinidogion Cymru trwy reoliadau, ac
- Os yw'r cyngor yn bodloni'r amod archwilio o fewn y 12 mis cynt.

Fe ddaw'r gallu i weithredu'r grym cymhwysedd cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned i gychwyn ar waith o'r 05.05.2022. Cyn hyn, cynhelir ymgynghoriad ar ganllawiau a'r rheoliadau yn nodi 'cymhwyster proffesiynol perthnasol' ar gyfer clerc, e.e. cymhwyster sector benodol megis Tysysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol (CiLCa).
**Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn haws cynnal cyfarfod mewn ffyrdd gwahanol, un a'i yn rhithiol neu i fynychu'n bersonol mewn lleoliad arall fel bo angen**. Mae'n gwneud darpariaeth barhaol ar gyfer cyfarfodydd o bell a chyhoeddi dogfennau yn electronaidd. Y bwriad yw y daw hyn i rym ar 01.05.2021 (mae hyn wedi ei gytuno gan Llywodraeth Cymru mewn ebost ar 24.03.21).
**Adroddiadau Blynyddol Cynghorau Cymuned** – o fis Ebrill 2022 bydd gan gyngor cymuned ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiad am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Rhaid i'r adroddiad cyntaf gyfeirio at flwyddyn ariannol Ebrill 2021 – Mawrth 2022, a rhaid ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ol mis Ebrill 2022.
**Hyfforddi aelodau a staff cynghorau cymuned** - bydd gan gynghorau cymuned ddyletswydd i ystyried hyfforddiant o'r 05.05.2022 ar gyfer cynghorwyr a staff a chyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant cyntaf erbyn mis Tachwedd 2022. Nid yw'n fwriad ceisio sicrhau fod pob un cynghorydd yn derbyn hyfforddiant ar yr un materion, y nod yw creu sefyllfa lle mae gan y cynghorwyr fel grwp, a'r staff fel corff, y wybodaeth sydd ei angen arnynt i weithredu'n effeithiol. **Derbyn**.
**Penderfynwyd cynnal cyfarfod Is-bwyllgor Polisi i fynd drwy'r holl bolisiau cyfredol rhag ofn fod angen ei diweddaru, a gweld os oedd angen mabwysiadu unrhyw bolisiau eraill, o flaen y cyfarfod nesaf ar 13.05.21.**

**Materion yn y gymuned**.
8. **Llanystumdwy**
9. **Rhoslan/Ynys**
10. **Chwilog**
**Mynedfa Bro Sion Wyn** sef y gornel tuag at Llys Elphin-pwll dwr eithaf sylweddol yn cronni pan mae dipyn o law yn disgyn yno – wedi derbyn ateb gan Cyngor Gwynedd

yn dweud fod yr "*Archwiliwr Priffyrdd wedi bod yn cael golwg ar y safle ag am drefnu i'r Uned Waith anfon 'jetar' yno er mwyn glanhau'r 'gwliau' a'r draeniau os oes angen*". **Derbyn.**

11. **Pencaenewydd/Sardis**

**Arwyddion dim ysbwriel ym Mhencaenewydd/Llangybi** – trafodwyd fod nifer o leoedd drwy'r gymuned hefo problemau ysbwriel, rhwng Tanllyn a'r Orsedd, Llanarmon, draws y lon i'r Ffatri Laeth a **gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi am y posibliadau o gael arwyddion.**

12. **Llangybi**

**a) Cae chwarae –** Rheoliadau Gwahardd Ysmygu Cymru wedi dod i rym ers 01.03.21, felly mae gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a meysydd chwarae. Y Clerc am drefnu i wneud a gosod rhybudd ger y prif fynedfa, ac mae dirwy o £100.00 os bydd rhywun yn ysmygu yno. **Gofynwyd i'r Clerc wneud ymholiadau i gael arwydd iawn yno yn hytrach nag un wedi ei lamineiddio erbyn y cyfarfod nesaf.**

**b) Dwr ger Tyddyn Llan, Llangybi** – dwr yn cronni yn y ffordd wrth giat y lon a dwr yn rhedeg o'r ffordd i'r buarth gan nad oes unman arall i ddwr o'r pentre fynd. **Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd a'r broblem wedi cael ei datrys.**

13. **Enwau lleol -**

Y Clerc wedi trafod hefo Mr Osian Richards, Ymgynghoriaeth ac wedi edrych ar 'mapiau Gwynedd', ac mae'r 2 bont, Pont Rhyd y benllig a Pont Rhyd y croesau wedi cael ei cofrestru ('listed'), fel Dosbarth II, felly roedd angen caniatâd gan Ms Eryl Williams, Uwch Swyddog Cadwraeth, Cyngor Gwynedd gyntaf.
Nid oedd Pont Hendre-garcin wedi ei chofrestru, a nid oedd Pont Rhyd yr Eirin wedi cael ei glustnodi fel pont ar mapiau Gwynedd.
Wedi derbyn ebost gan Ms Eryl Williams yn cadarnhau mai'r ddwy uchod sef Pont Rhyd y croesau a Rhyd y benllig oedd yn rhestredig (a dyma yw'r sillafiad cywir), yna dywedodd,
"Hyd y gwelaf, dim ond dwy o'r bontydd sydd yn rhestredig, sef Rhyd y croesau a Rhyd y benllig.
Os bwriedir gosod y llechen ar y bont, mae hyn am fod angen hawl ffurfiol, a chymeraf na'r Cyngor sydd yn berchen y bontydd ac mi fydd felly yn gais y Cyngor i Lywodraeth Cymru benderfynu, a gellir gymeryd amser.
Fel y mae Osian wedi awgrymu, mae'n well gosod y llechen oddi ar y bont, felly ni fyddai'n cyffwrdd y strwythur rhestredig ac felly ni fydd angen hawl.
Gobeithio fod hyn y gyngor". Derbyniwyd y wybodaeth uchod, a gofynwyd i'r Clerc holi am bris i osod yr arwyddion hefyd erbyn y cyfarfod nesaf.

14. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2021 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
f. Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi (*cytundeb a wnaed 3 mlynedd yn ol o 2018 wedi dod i ben*).

***<u>Bydd y Clerc wedi trefnu i roi hysbyseb ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2021, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod ar 13.05.2021.</u>***

**<u>Cadw safle Bedd D Lloyd George, Llanystumdwy yn daclus yn ystod tymor Ebrill 2021-Mawrth 2022-</u>** gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Gareth Jones i'w holi os oedd yn fodlon ymgymryd â'r gwaith eto eleni

15. **<u>Glanhau llochesi bws</u>** – holi am brisiau erbyn y cyfarfod nesaf.

**<u>Materion Ariannol</u>**
16. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Fe wnaeth y Clerc anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 31.03.2021. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Roedd y Clerc wedi mynd â'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod. **<u>Derbyn y wybodaeth.</u>**

17. **<u>Taliadau</u>** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 01.04.2021:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| ALCC | Tâl aelodaeth | **<u>40.00</u>** | | **<u>40.00</u>** | **<u>40.00</u>** |
| Criccieth Cleaning Ltd (2829) | Glanhau llochesi bws | **<u>166.50</u>** | **<u>33.30</u>** | **<u>199.80</u>** | **<u>199.80</u>** |
| Un Llais Cymru | Tâl Aelodaeth 2021/2022 | **<u>319.00</u>** | | **<u>319.00</u>** | **<u>319.00</u>** |

Cyflog mis Mawrth 2021 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS :-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Mawrth 2021<br>35 awr x £10.83 = £379.05 | 379.05 -<br>Llai treth £76.00<br>= £303.05 | **<u>303.05</u>** | **<u>303.05</u>** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Mawrth 2021 | 380.00 x 20% =<br>£76.00 | **<u>76.00</u>** | **<u>76.00</u>** |
| Costau'r Clerc<br>Mawrth 2021 | £16.66 | **<u>16.66</u>** | **<u>16.66</u>** |

Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar y nos Iau 13.05.2021, oherwydd fod yr etholiad ar 06.05.2021.

**<u>It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.</u>**